

Tŷ Agored

Rhifyn 1 2022 Y Cylchgrawn ar gyfer **Tenantiaid a Lesddeiliaid y Cyngor**



*Mae'r ffordd rydych
yn rhentu'ch cartref yn
newid. Gweler tudalen
9 am ragor o wybodaeth
am y Ddeddf Rhentu
cartrefi.*



Y tu mewn

ERTHYGLAU

Ap 'Hope in Swansea'	1
Gweithffyrdd+	2
Cystadleuaeth Arddio 2021	4

CYSYLLTIADAU LLEOL

Beth sy'n digwydd yn ein llyfrgelloedd ...	5
--	---

TENANTIAETH AC YSTAD

Llais y Tenantiaid	6
Wythnos Diogelu	6
Newyddion Tai Lloches	7
Eich sylwadau am gylchgrawn Tŷ Agored	7
Newidiadau i'r gwasanaeth Tai Lloches	8
Amserau agor Swyddfa Dai Ardal Gorseinon	8
Mae'r ffordd rydych yn rhentu'ch cartref yn newid	9
HomeSwapper	10
Dulliau talu rhent	12
Gwasanaethau cefnogi	13

CYNGOR CYFFREDINOL

Hawliadau atgyweirio	14
Llinell Gymorth Credyd Pensiwn	14
Ymgynghoriad Polisi Atgyweiriadau ..	15
Hwb Ymwybyddiaeth Ynni Dros Dro ...	15
Sgamiau ar-lein a sut i gadw'n ddiogel	16
Rhowch wybod i ni sut yr hoffech dderbyn copi o Tŷ Agored	17
Anwedd a llwydni yn eich cartref	18
Grant Cyfleusterau i'r Anabl	20
Porth Tai ar-lein newydd - Yn dod cyn bo hir!	20
Casgliadau Ailgylchu a Sachau Du Ymyl y Ffordd	21
Trefnu'ch Ymweliad Â Chanolfan Ailgylchu Llansamlet	22

CYDRADDOLDEB

Allwn ni eich helpu?	22
----------------------------	----

**MAE'R HOLL WYBODAETH YNG
NGHYLCHGRAWN Tŷ AGORED YN
GYWIR WRTH FYND I'R WASG.**

Croeso i Tŷ Agored

Croeso i rifyn diweddaraf ein cylchgrawn i denantiaid a lesddeiliaid.

Rydym yn gobeithio y byddwch yn mwynhau gweld lluniau o'r gerddi buddugol o gystadleuaeth arddio eleni ar dudalen 4. Rydym yn siŵr y byddwch yn cytuno bod rhai gerddi hyfryd ac enillwyr haeddiannol.

Mae peth gwybodaeth bwysig ar dudalen 9 ynghylch y Ddeddf Rhentu Tai newydd a'r hyn y mae'n ei golygu i chi.

Ar dudalen 16, ceir awgrymiadau defnyddiol ar osgoi sgamiau ac aros yn ddiogel ar-lein felly cymerwch yr amser i ddarllen y cyngor.

Rydym hefyd yn gofyn i chi roi gwybod i ni beth sydd orau gennych chi o ran sut rydych yn derbyn Tŷ Agored yn y dyfodol. Rhagor o fanylion ar dudalen 17.

Fel bob amser, os oes gennych unrhyw adborth ar erthyglau neu ar yr hyn yr hoffech chi ei weld mewn rhifyn yn y dyfodol, hoffem glywed gennych.

Rachel Cole, Golygydd

Cysylltiadau Defnyddiol

Golygydd - Rachel Cole	☎ 635045
Canolfan Gyswllt Atgyweiriadau	☎ 635100
Atgyweiriadau Brys y tu allan i Oriau Swyddfa	☎ 521500
Uned Cefnogi Cymdogaethau 24 awr	☎ 648507
Opsiynau Tai	☎ 533100
Canolfan Gyswllt yr Amgylchedd	☎ 635600
Ymholiadau Budd-dal Tai	☎ 635353

Swyddfa Dai'r Ardal Ganolog

Bydd yr ARDAL GANOLOG yn cwmpasu ardaloedd tai Townhill a chanol y dref a bydd y gwasanaeth wedi'i leoli yn Swyddfa Dai Townhill a Chanol y Dre.

✉ swyddfadai.ardalaganolog@abertawe.gov.uk ☎ 01792 513900

Swyddfa Dai Ardal y Dwyrain

Mae ARDAL Y DWYRAIN yn cwmpasu ardaloedd tai Eastside a Threforys a bydd y gwasanaeth wedi'i leoli yn Swyddfa Dai Treforys.

✉ swyddfadai.ardalydwyrain@abertawe.gov.uk ☎ 01792 601720

Swyddfa Dai Ardal y Gogledd

Mae ARDAL Y GOGLEDD yn cwmpasu ardaloedd tai Blaen-y-maes a Phen-lan a bydd y gwasanaeth wedi'i leoli yn Swyddfa Dai Blaen-y-maes.

✉ swyddfadai.ardalygogledd@abertawe.gov.uk ☎ 01792 534060

Swyddfa Dai Ardal y Gorllewin

Mae ARDAL Y GORLLEWIN yn cwmpasu ardaloedd tai Gorseinon, West Cross a Sgeti a bydd y gwasanaeth wedi'i leoli yn Hwb Llyfrgell Gorseinon a Swyddfa Dai Sgeti.

✉ swyddfadai.ardalygorllewin@abertawe.gov.uk ☎ 01792 897700

Os hoffech gael yr wybodaeth hon mewn fformat arall e.e. print bras, Braille, disg neu ddull arall, cysylltwch â'r Gwasanaethau Cwsmeriaid Tai ☎ 01792 635045 neu ewch i'n gwefan

🌐 www.abertawe.gov.uk/tai neu e-bostiwrch

✉ tai@abertawe.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a byddwn yn ymdrin â gohebiaeth Gymraeg a Saesneg i'r un safonau ac amserlenni.




Cyflwynir i chi gan **Mathew's House**

Am ddim

Ap cyfeirio fel y gallwch chi ddod o hyd i obaith lle'r ydych chi'n byw

Ap ffôn clyfar a grëwyd i ddarparu
llwybr llyfn i wasanaethau cefnogi
yn Abertawe.

Gadewch i *Hope in Swansea* eich arwain
at fanylion dibynadwy, cywir a chyfoes
cefnogaeth leol - a'r cyfan mewn un lle.



Mae cefnogaeth ar gael ar gyfer:

- Cam-drin
- Pobl yr effeithiwyd arnynt gan droseddu
- Anabledau ac Iechyd
- Cyflogaeth ac Addysg
- Yr iaith Saesneg
- Cyn-aelodau'r lluoedd arfog
- Cyn-droseddwy
- Teuluoedd
- Cyllid a Budd-daliadau
- Rhywedd a Rhywioldeb
- Digartrefedd a Llety
- Newyn
- Hylendid a Glanweithdra
- Ffordd o fyw a Chaethiwed
- Unigrwydd ac Unigedd
- Iechyd Meddwl
- Pobl Hŷn
- Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches
- Lles a Chymuned
- Menywod a Dynion
- Pobl Ifanc



Lawrlwythwch yr ap heddiw!
[Hopeinswansea.org.uk](https://hopeinswansea.org.uk)



www.abertawe.gov.uk/gweithffyrdd

Mae Gweithffyrdd+ yn cynnig hyfforddiant, profiad gwaith â thâl a chyfleoedd gwirfoddoli i bobl ddi-waith dros 25 oed i'w helpu i wella'u bywydau a dod o hyd i gyflogaeth.

Mae gan lawer o'r bobl y mae **Gweithffyrdd+** yn eu helpu heriau i'w goresgyn gan gynnwys cyflyrau iechyd cyfyngol iawn a chyfrifoldebau rhoi gofal. Gyda chymorth ariannol o £17.3 miliwn drwy gronfeydd yr UE, bydd Gweithffyrdd+ o fudd i bobl Abertawe, Sir Gâr, Sir Benfro a Cheredigion. Cefnogwyd y prosiect hwn gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru.

Mae cefnogaeth **Gweithffyrdd+** yn cynnwys helpu pobl i chwilio am swyddi, datblygu eu CV, trefnu iddynt gael hyfforddiant a ariennir ac ennill cymwysterau, magu hyder, datblygu sgiliau cyfweiliad, dod o hyd i brofiad gwaith â thâl iddynt a'u cyflwyno i ddarpar gyflogwyr.

Mae prosiectau **Gweithffyrdd+** eisoes wedi cefnogi dros 1,000 o bobl sy'n byw yn Abertawe, ac rydym yn dathlu hyn drwy rannu straeon Newyddion Da gan rai o'r cyfranogwyr rydym wedi'u helpu i ddod o hyd i gyflogaeth.

Cefnogwyd Hugh gan **Gweithffyrdd+** i gael hyfforddiant fel bancwr, yn ogystal â Lefel 2 Iechyd a Diogelwch mewn amgylchedd adeiladu, a oedd wedi'i alluogi i ddod o hyd i gyflogaeth amser llawn fel ceidwad drws, gyda chefnogaeth ein Mentor Cyflogaeth a'r Tîm Y Tu Hwnt i Frics a Morter. *"For my part I am very pleased with the support received from Workways. "Rwy'n hapus iawn gyda'r gefnogaeth ges i gan y tîm Gweithffyrdd. Doedd dim byd yn ormod iddyn nhw ac mae'r canlyniadau'n glir i'w gweld – gyda help i baratoi fy CV a rhywfaint o hyfforddiant, roeddwn i'n llwyddiannus yn fy nghyfweliad cyntaf (ac nid yw hynny'n waith hawdd ar hyn o bryd gyda chynifer o bobl yn chwilio am waith). Rwy'n edrych ymlaen at y dyfodol a hoffwn ddiolch i Gweithffyrdd am eu holl help".*



ALLGYMORTH

Dydd Llun: Llyfrgell Gorseinon, 9.30 - 12.30

Dydd Llun: Llyfrgell Clydach, 9.30 - 12.30

Dydd Mercher: Llyfrgell Brynhyfryd, 9.30 - 12.30

I gael rhagor o wybodaeth am **Weithffyrdd+**

 **01792 637112**

 **Workways+@swansea.gov.uk**



Gweithffyrdd+ yn helpu Lauren i lwyddo

Roedd angen swydd ar Lauren Ellis, rhiant sengl i dri phlentyn ifanc, a chyda'i phlentyn ieuengaf bellach yn yr ysgol, roedd y cyfle yr oedd wedi bod yn aros amdano wedi cyrraedd. Mae gan Lauren brofiad sylweddol o weithio yn y sector gofal ond oherwydd ei chyfrifoldebau gofal plant, roedd angen oriau rheolaidd arni yn ystod y dydd. Roedd Lauren am weithio yn y maes gweinyddol ond oherwydd ei diffyg profiad a chymwysterau yn y sector hwnnw, doedd hi ddim mewn sefyllfa i ymgeisio am swyddi gweinyddol.

Cyfeiriwyd Lauren gan ei Chanolfan Waith leol at Gweithffyrdd+, y gwasanaeth sy'n helpu pobl i wella'u bywydau drwy gyflogaeth a chefnogaeth hyfforddiant wedi'i hariannu'n llawn. Neilltuodd Gweithffyrdd+ fentor profiadol i Lauren sef Angela, i weithio gyda hi ar sail un i un. Fe wnaethon nhw fwynhau gweithio gyda'i gilydd, a chyn bo hir, roedd Angela wedi gallu trefnu cwrs hyfforddiant wedi'i ariannu'n llawn i Lauren a oedd yn canolbwyntio ar weinyddiaeth. Helpwyd Lauren hefyd gan Angela i fynd i'r afael â thechnegau cyfweiliad ac ysgrifennu CV effeithiol. Ariannodd Gweithffyrdd+ Ddyfarniad Lefel 1 BSC mewn Sgiliau Defnyddwyr TG (Hanfodion ECDL) iddi, a gweithiodd Lauren yn galed a chyda chefnogaeth Angela llwyddodd i basio'r prawf. Mae gan Lauren bellach gymhwyster sy'n berthnasol i swyddi gweinyddol a drefnwyd ac a dalwyd yn llawn amdano gan Gweithffyrdd+. Nesaf, gan ddefnyddio gwasanaeth Y Tu Hwnt i Frics a Morter Cyngor Abertawe, roedd Gweithffyrdd+ wedi gallu cytuno prawf gwaith iddi gyda chwmni o Abertawe sef R&M Williams, contractwr ar ddatblygiad Theatr y Palace.

Rhagorodd Lauren yn y cyfnod prawf, a chynigiwyd swydd ran-amser iddi yn y cwmni, sy'n addas ar gyfer galwadau ei chyfrifoldebau gofal plant. Meddai Robert Theophile, Rheolwr Prosiect R&M Williams, "Ers ymuno ag R&M Williams yn Theatr y Palace yn Abertawe, mae Lauren Ellis wedi addasu'n gyflym i rôl gweinyddwr safle ac mae hi bellach yn aelod gwerthfawr o'r tîm. Mae hi wedi gallu dysgu sgiliau TG newydd a systemau'r cwmni wrth ddangos brwdfrydedd mawr sydd wedi helpu i wneud y broses yn un hwylus"



Meddai Lauren, "Fyddwn i ddim yma oni bai am Gweithffyrdd+. Roedd fy mentor wedi ystyried fy niddordebau a'm rhoi ar y llwybr 'ma rwy'n ei fwynhau'n fawr ac sy'n cynnig cyfleodd i mi ar gyfer datblygu. Rwy'n ddiolchgar iawn am yr help a'r gefnogaeth roddodd Angela i fi a pha mor gyflym y digwyddodd popeth. Doedd dim ffwdanu, ges i help gennych chi'n syth. Roedd y cyfathrebu'n rhagorol, gan brofi bod hyn o bwys iddi, a'i bod yn awyddus i fy helpu. Ymatebodd Angela yn effeithlon bob amser, gan ddangos sicrwydd a ffydd ynof, a roddodd yr hyder i fi allu dweud.... Lauren, rwyf i'n gallu gwneud hyn. Doedd dim byd yn ormod iddi a dyna pam rwyf yma gyda chwmni R&M Williams nawr."

Cefnogir y prosiect hwn gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop trwy Lywodraeth Cymru

www.workways.wales

Cystadleuaeth Arddio 2021

Yr Enillwyr!

**Diolch i bawb a gymerodd ran yn ein cystadleuaeth arddio yn 2021.
Roedd ychydig yn wahanol i flynyddoedd blaenorol oherwydd gofynnem
i chi anfon lluniau o'ch gerddi a'r ardaloedd hyfryd o'u cwmpas atom.**

Roedd safon y rheini a gymerodd ran wedi creu argraff fawr ar y beirniaid a chawsant amser
caled yn penderfynu ar yr enillwyr, ond yn y diwedd, fe lwyddon nhw! Dyma ddeholiad o
luniau o erddi'r enillwyr:



Gardd Orau - Gwobr 1af: Richard Russ



Gardd Fwyfadwy Orau: Andrea Evans



Gardd Orau - 2il wobwr: Patrick McCormack



Gardd Ffordd o Fyw Orau: Stephen Rees



Gardd Orau - 3edd wobwr: Geraldine Spencer



Cyfadeilad Lloches Gorau: Llys y Coed



Defnydd gorau o ardal fach: Mrs M Jenkins

Cysylltiadau Lleol

Mae cysylltiadau lleol yn darparu gwybodaeth am weithgareddau sy'n digwydd yn eich ardal chi.



Beth sy'n digwydd yn ein llyfrgelloedd? Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma!

ABERTAWE SWANSEA



Gall y rheini sy'n dwlu ar ddarllen bellach gael yr holl lyfrau maent yn dymuno eu darllen gan fod Llyfrgelloedd Abertawe wedi lansio gwasanaeth llyfrau 'Ffonio a Chasglu' llyfrau i breswylwyr lleol.

Mae'r gwasanaeth yn cael ei gynnig mewn nifer o lyfrgelloedd ac fe'i dyluniwyd ar gyfer y rheini y mae'n well ganddynt ddarllen llyfr go iawn.

Ers dechrau'r cyfnod clo mae ein gwasanaeth llyfrgelloedd wedi cynnig gwasanaeth ar-lein lle gall darllenwyr gael mynediad at e-lyfrau a llyfrau llafar, yn ogystal â chylchgronau, y newyddion a gwasanaethau eraill.

Bydd y gwasanaeth 'Ffonio a Chasglu' ar gael ar ddydd Mawrth, dydd Mercher a dydd Iau yn Llyfrgell Ganolog Abertawe, Llyfrgell Gorseinon, Llyfrgell Treforys a Llyfrgell Ystumllwynarth.

Ydych chi'n chwilfrydig ynghylch hanes eich teulu?

Hoffech chi ddarganfod rhagor am eich hynafiaid? Wel, beth am roi cynnig ar ddarganfod yr atebion gyda mynediad **AM DDIM** Llyfrgelloedd Abertawe at Ancestry i aelodau'r llyfrgell?

NewsBank...

Mae ein hadnodd @NewsBank yn ffordd wych o gael y newyddion diweddaraf am unrhyw bwnc #NewsBank.

Wi-Fi, Cyfrifiaduron ac Argraffu... Mae pob un o'n llyfrgelloedd yn cynnig mynediad at Wi-Fi, cyfrifiaduron a gwasanaethau argraffu i aelodau llyfrgell.

e-Lyfrau, e-Lyfrau Llafar ac e-Gylchgronau...

Gall aelodau'r llyfrgell lawrlwytho e-lyfrau, e-lyfrau llafar ac e-gylchgronau am ddim. **Lawrlwythwch e-lyfrau llafar am ddim i'ch cyfrifiadur, eich tabled a'ch ffôn gyda BorrowBox.**

Os ydych yn aelod o Lyfrgelloedd Abertawe, mae gennych fynediad awtomatig at **BorrowBox**, ein gwasanaeth e-lyfrau sydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg. 📞 www.swansea.borrowbox.com/

Amser Rhigwm...

Llyfrgell Brynhyfryd

Bob bore dydd Mawrth am 10.00am

☎ 01792 650953

Llyfrgell Sgeti

Bob bore dydd Mawrth am 10.30am

☎ 01792 202024

Llyfrgell Treforys

Bob bore dydd Mercher am 10.30am

☎ 01792 516770

Llyfrgell Pen-lan

Bob prynhawn dydd Gwener am 1.30pm

☎ 01792 584674

Mae'r rhestr lawn o lyfrgelloedd yn Abertawe ar gael ar ein gwefan 📞 www.abertawe.gov.uk/llyfrgelloeddabertawe

Llais y Tenantiaid



Fy enw i yw Alison Winter a fi yw eich Swyddog Cyfranogiad.

Mewn rhifynnau Tŷ Agored blaenorol, rwyf wedi defnyddio'r dudalen hon i roi'r diweddarafr i chi ar yr hyn y mae grwpiau cymdogaethau lleol a grwpiau ledled y ddinas wedi bod yn ei drafod. Er na allwn gwrdd wyneb yn wyneb ar hyn o bryd, rwyf wedi mwynhau siarad â llawer ohonoch dros y ffôn i gael sgwrs a chlywed y newyddion diweddarafr.



Gallwch gymryd rhan o hyd, a chael cyfle i ddweud eich dweud a chadw mewn cysylltiad.

Yn ogystal â chysylltu â mi dros y ffôn, gallwch anfon neges destun ataf ar ☎ **07775221453**, cysylltu â mi drwy 'Messenger' neu fy e-bostio yn ✉ **Alison.winter@swansea.gov.uk**.

Facebook

Mae gan Dai Cyngor Abertawe ei grŵp Facebook ei hun, y gall unrhyw denant neu lesddeiliad y cyngor ymuno ag e'. Rydym yn postio gwybodaeth ddefnyddiol, yn eich cynghori ar ddiweddariadau a newidiadau i wasanaethau tai ac wrth gwrs yn ateb unrhyw ymholiadau sydd gennych. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau am bynciau yr hoffech eu cynnwys, cysylltwch â ni.

Os hoffech ymuno, chwiliwch am 'Tai Cyngor Abertawe' ar Facebook, gnewch gais i ymuno a gofynnir y cwestiynau canlynol chi. 1: Enw'r tenant arweiniol, 2: Cyfeiriad 3: Dewis iaith. **Dim ond os atebwch chi'r cwestiynau hyn y caiff eich cais ei gymeradwyo.**



Wythnos Diogelu

Yn ystod mis Tachwedd, cynhaliodd swyddogion o'r Adran Tai, yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân ac Abertawe Mwy Diogel sesiynau galw heibio mewn lleoliadau amrywiol ledled Abertawe i gynyddu ymwybyddiaeth o asiantaethau cymorth, hyrwyddo gwasanaethau sydd ar gael i helpu pobl syn agored i niwed a chynnig cyngor tai. Mae rhagor o ddigwyddiadau'n cael eu cynllunio a byddaf yn rhoi gwybodaeth i chi am y rhain yn rhifynnau'r dyfodol.

Newyddion Tai Lloches



Llongyfarchiadau i un o'n preswylwyr, Eileen, o Conway Court, a ddathlodd ei phen-blwydd yn 99 oed yn 2021. Dathlodd Eileen ei phen-blwydd yng nghwmni ei ffrindiau a'i theulu.

Pen-blwydd Hapus yn 99 oed!

Roedd Christine, tenant o Dŷ Dewi Sant, wedi eillio'i gwallt i gynyddu ymwybyddiaeth o ganser a'r gwaith y mae Macmillan yn ei wneud. Cododd dros £450 ar gyfer yr achos.



Meddai Cheryl Duffy, Uwch-warden, "Rydym yn falch iawn o Christine am eillio'i gwallt a chodi cymaint o arian ar gyfer achos da."

Cynhaliodd tenantiaid eraill o Dŷ Dewi Sant fore coffi gyda raffl a gwerthwyd nwyddau cartref. Roedd hefyd gêm troelli'r olwyn er mwyn ennill potel o rywbeth arbennig. Codwyd cyfanswm o £1,870.88 ar gyfer Macmillan. **Llongyfarchiadau i bawb a fu'n rhan o'r ymgyrch codi arian!**

Cynigir grant Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Cadwch Gymru'n Daclus i grwpiau cymunedol i wella, adfer a datblygu mannau gwyrdd yn erddi cymunedol. Mae nifer o becynnau ar gael i grwpiau wneud cais amdanynt, yn dibynnu ar yr hyn yr hoffai'r grŵp ei gyflawni. Mae nifer o'n Cyfadeiladau Lloches, gan gynnwys Heol y Gors, Laugharne Court a Gloucester House wedi bod yn llwyddiannus wrth wneud cais am y grant. Byddwn yn rhoi'r diweddaraf i chi am hyn yn rhifynnau'r dyfodol.



Eich sylwadau am gylchgrawn Tŷ Agored

Oes gennych unrhyw sylwadau am y rhifyn hwn o gylchgrawn Tŷ Agored neu am unrhyw un o'r erthyglau yr ydych wedi'u darllen? Os felly, gallwch ysgrifennu i'r cyfeiriad canlynol: Gwasanaethau Tai, Dinas a Sir Abertawe, Oystermouth Road, Abertawe SA1 3SN, Rhadbot RSCT-JJZH-KLJZ neu e-bostiwrch ✉ tai@abertawe.gov.uk neu ffoniwch ☎ **01792 635045**.

Diolch am eich amser. Rhowch wybod i ni a ydych yn hapus i ni gyhoeddi eich sylwadau yng nghylchgrawn Tŷ Agored.

Newidiadau i'r gwasanaeth Tai Lloches

Gwnaed newidiadau pwysig i Dai Lloches, gan wella'r gwasanaeth rydym yn ei gynnig i breswylwyr.

Yn gyntaf, newid enw! Bydd y gwasanaeth Tai Lloches bellach yn cael ei alw'n Gwasanaethau Byw'n Annibynnol. Mae'r enw hwn yn cynrychioli'r math o wasanaeth rydym yn ei gynnig yn well ac yn golygu y bydd Wardeiniaid yn cael eu galw'n Swyddogion Byw'n Annibynnol.

Mae gwelliannau eraill i'r gwasanaeth yn cynnwys y canlynol:

Pobl dros 55 oed - Bydd rhai cyfadeiladau bellach yn derbyn tenantiaid 55 oed neu'n hŷn gan ein bod ni'n cydnabod bod angen y gefnogaeth a'r tawelwch meddwl y gall Byw'n Annibynnol ei gynnig ar rai pobl dros 55 hefyd.

Uwchraddio systemau galw - Caiff y systemau galw eu huwchraddio o analog i ddigidol, a fydd yn caniatáu rhagor o dechnoleg gynorthwyl i'n tenantiaid yn y dyfodol.

Teledu cylch cyfyng - mae rhaglen barhaus i osod teledu cylch cyfyng yn ein cyfadeiladau i ddarparu diogelwch ychwanegol, gan ganiatáu i breswylwyr deimlo'n fwy diogel yn eu cartrefi eu hunain.

Adnewyddu'r llofa gymunedol - Caiff yr holl lolfeydd cymunedol eu hadnewyddu dros y 5 mlynedd nesaf, gan ddarparu amgylchedd mwy braf i breswylwyr deimlo'n gyfforddus ynddo.

Tasgmon - Bydd tasgmon newydd ei benodi ar gael yn ein cyfadeiladau i roi cymorth i denantiaid gyda thasgau fel newid bylbiau golau a gosod silffoedd.

Crog dlwsau/Llinellau bywyd - Cofiwch, gallwch ddefnyddio'r rhain i gael gafael ar gymorth pan fydd ei angen arnoch ac nid ar gyfer defnydd mewn argyfwng yn unig. Os ydych chi'n tynnu'r llinellau bywyd neu'n ysgogi'ch crog dlws, bydd person ar y ffôn yn y gwasanaeth Delta'n rhoi cymorth i chi. Mae'r gwasanaeth hwn ar gael i chi 24 awr y dydd, 7 niwrnod yr wythnos.

Os oes gennych chi, neu unrhyw un rydych chi'n ei adnabod ddiddordeb mewn gwneud cais am 'Byw'n Annibynnol', gallwch ffonio Opsiynau Tai ar ☎ **01792 533100**. Mae rhagor o wybodaeth ar gael hefyd ar ein 🌐 **www.abertawe.gov.uk/tailloches**.

Amserau agor Swyddfa Dai Ardal Gorseinon

Gan ddechrau o 10 Ionawr 2022, mae amserau agor Swyddfa Dai Ardal Gorseinon wedi newid i'r canlynol:

Dydd Llun 9.00am - 1.00pm

Dydd Mawrth 1.00pm - 4.00pm

Dydd Mercher 9.00am - 1.00pm

Dydd Iau 1.00pm - 4.00pm

(Llun - Iau ffonau ar gael o 8.30am i 4.30pm)

Dydd Gwener 9.00am - 1.00pm

(Gwener -ffonau ar gael o 8.30am i 4.00pm)

Ni fydd yr oriau agor diwygiedig yn lleihau'r gwasanaeth tai cyffredinol a ddarperir i denantiaid gan y byddwch yn dal i allu ffonio ac e-bostio'r swyddfa pan fydd ar gau. Byddwn hefyd yn parhau i gynnig apwyntiadau a drefnwyd ymlaen llaw yn Swyddfa Dai Ardal Gorseinon neu yn eich cartref ar amser sy'n addas i chi.

O ystyried daearyddiaeth yr ardal a gwmpesir gan Swyddfa Dai Ardal Gorseinon, ein bwriad yw galluogi Swyddogion Cymdogaeth i ddefnyddio'u hamser i fod yn fwy gweladwy yn y gymuned yn hytrach na bod yn y swyddfa.

Mae'r ffordd rydych yn rhentu'ch cartref yn newid



Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y daw'r Ddeddf Rhentu Cartrefi i rym ar 15 Gorffennaf 2022.

Bydd y ddeddf newydd yn effeithio ar bob tenant a landlord yn y sectorau cyhoeddus a rhentu preifat.

Bydd y ddeddf yn:

- Symleiddio sawl darn o'r Ddeddf Tai ac yn creu un fframwaith cyfreithiol.
- Bydd yn symleiddio ac yn gwella hawliau a chyfrifoldebau.
- Am y tro cyntaf, bydd y ddeddf yn creu dau fath o contract: Diogel a Safonol.

Contract diogel: Bydd yn cymryd lle'r tenantiaethau diogel a roddwyd gan y cyngor. Bydd hefyd yn cymryd lle tenantiaethau sicr a roddwyd gan Gymdeithasau Tai.

Contract safonol: Mae hyn yn effeithio ar denantiaid mewn llefydd a rentir yn breifat ond caiff ei ddefnyddio hefyd gan y cyngor a chymdeithasau tai mewn rhai amgylchiadau (e.e. contract safonol cyflwyniadol i denantiaid newydd y cyngor).

Rwy'n denant y cyngor - sut bydd hyn yn effeithio arnaf?

- Ni fydd eich hawliau cyfreithiol i fyw yn eich cartref yn llai diogel ac ni fydd yn rhaid i chi symud cartref.
- Byddwch yn parhau i dderbyn yr un gwasanaeth oddi wrth y cyngor fel eich landlord.
- Bydd Cyngor Abertawe yn dod yn Landlord Cymunedol, newid i'r term "landlord cymdeithasol".
- Bydd tenantiaid yn dod yn ddeiliad contract.
- Bydd cytundebau tenantiaeth yn dod yn contractau meddiannaeth.
- Bydd hawliau olynu'n cael eu cynyddu - os ydych yn rhannu'ch cartref, caniateir dau olynedd i'r contract, er enghraifft, gŵr neu wraig wedi'i ddilyn gan aelod o'r teulu. Yn ogystal, bydd hawl olynu newydd i ofalwyr yn cael ei chreu.

- Cyd-gontractau - gellir ychwanegu deiliaid contract at gontractau meddiannaeth neu eu dileu oddi arnynt heb orfod dod ag un contract i ben a dechrau un arall. Bydd hyn yn gwneud y gwaith o reoli cyd-gontractau'n haws ac yn helpu pobl sy'n dioddef cam-drin domestig drwy ei gwneud yn bosib i droi'r sawl sy'n cam-drin allan o'r cartref.
- Bydd mwy o sicrwydd i bobl sy'n byw yn y sector rhentu preifat.

Oes angen i mi wneud unrhyw beth?

Does dim angen i chi wneud unrhyw beth yn awr.

Bydd tenantiaid presennol yn derbyn eu contractau meddiannaeth newydd o fewn chwe mis i 15 Gorffennaf 2022 a bydd tenantiaid newydd (deiliaid contract) yn llofnodi contract meddiannaeth newydd o'r dyddiad hwn.

Rydym wedi bod yn cyd-gysylltu'n agos â Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a sefydliadau tai eraill i baratoi ar gyfer y newidiadau, ac mae ein staff yn gweithio'n galed i sicrhau bod y newidiadau'n cael eu rhoi ar waith mor ddiffwdan â phosib.

Byddwn yn ceisio rhoi'r diweddaraaf i chi ar gynydd ac anfonir gwybodaeth atoch yn yr ychydig fisoedd nesaf i esbonio'n newidiadau'n fanwl.

Mae gwybodaeth ddefnyddiol ar gael hefyd ar wefan Llywodraeth Cymru yn <https://llyw.cymru/tenantiaid-mae-cyfraith-tai-yn-newid-rhentu-cartrefi>

Neu gan TPAS Cymru - Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid www.tpas.cymru/blog/maer-ffordd-yr-ydych-chin-rhentu-yn-newid-i-denantiaid-a-landlordiaid

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau, cyflwynwch nhw yma: www.abertawe.gov.uk/deddfrhentucartrefi?languagepref=cy

Eisiau symud cartref?

Gall HomeSwapper eich helpu!

Os ydych am symud cartref gallwch wneud cais am drosglwyddiad neu ddewis amgen yw cyfnewid eich cartref gyda thenant tai cymdeithasol arall. Gall cyfnewid eich cartref fod yn ddefnyddiol os ydych am symud i gartref o faint tebyg neu o fewn yr ardal lle'r ydych yn byw ar hyn o bryd ac nid oes gennych flaenoriaeth ddigon uchel i allu cael gafael ar gartref newydd drwy ein proses glustnodi arferol. Gall fod yn gyflymach nag aros am drosglwyddiad.

I gyfnewid cartref, gallwch ddefnyddio gwefan **HomeSwapper**, sef gwasanaeth cyfnewid cartref mwyaf y DU i denantiaid tai cymdeithasol.

Mae Cyngor Abertawe'n aelod o **HomeSwapper** a gall tenantiaid Cyngor Abertawe gofrestru ar gyfer y gwasanaeth a'i ddefnyddio am ddim.

Gallwch gofrestru neu fewngofnodi i'ch cyfrif yn  www.homeswapper.co.uk neu gallwch ddefnyddio ap am ddim **HomeSwapper** ar eich ffôn neu'ch tabled - lawrlwythwch yr ap o siop apiau Apple neu Google Play i'ch ffôn neu'ch tabled.

P'un a ydych yn newydd i Homeswapper neu eisoes yn ei ddefnyddio, gall y lluniau ar eich hysbyseb wir eich helpu i gyfnewid cartref yn llwyddiannus.

Mae 90% o gyfnewidiadau llwyddiannus yn cynnwys o leiaf un llun.

Pam mae hyn yn bwysig?

Un o'r prif bethau allweddol sy'n gallu gwneud eich chwiliad yn llwyddiannus yw sut mae'ch hysbyseb yn edrych - a does dim byd yn well ar gyfer hyn na chynnwys rhai lluniau da o'ch cartref.

Felly os ydych o ddifri am gyfnewid, ychwanegwch lun!

Mae'n dangos eich bod yn ymroddedig ac mae'n helpu cyfnewidwyr eraill i weld yn syth a yw'ch cartref yn lle yr hoffent fyw ynddo.

Tynnu llun da

Ceisiwch ddangos eich cartref ar ei orau.

Gosod yr olygfa

Meddylwch am eich cartref fel pe baech yn ei weld am y tro cyntaf... beth fyddai'n creu argraff arnoch chi? Gwnewch yn siŵr bod y rhain yn y llun. Ceisiwch dynnu lluniau pan fydd y tywydd yn braf a heulog gan eu bod yn edrych yn well a sicrhewch fod yr ystafelloedd wedi'u goleuo'n dda.



Gwneud yn siŵr bod yr ongl yn gywir

Daliwch y camera yng nghornel yr ystafell fel y gallwch weld cymaint o'r ystafell â phosib i roi syniad da o'i maint i gyfnewidwyr eraill. A chofiwch ddal eich camera'n llonydd - mae angen llun clir, da, nid un aneglur! Os ydych yn poeni y bydd rhywun yn adnabod eich cartref, lanlwythwch luniau o'r tu mewn neu ardd, a gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio'r blwch disgrifio (sylwadau tenant) i ychwanegu gwybodaeth am y tu allan i'ch cartref.

Sut i ychwanegu llun at eich hysbyseb


Cam 1

Mewngofnodwch i'ch cyfrif yn

🔗 www.homeswapper.co.uk i gyrchu'ch dangosfwrdd.

Cam 2

O'r opsiynau sydd ar frig y sgrîn, cliciwch 'My details'.




Cam 3

O'r gwmpen sy'n ymddangos, cliciwch ar 'The home I've got'.


Cam 4

Fe welwch linell o gylchoedd a phob un â gwahanol opsiwn ar gyfer eich hysbyseb. Mae'r cylch olaf yn cynnwys camera, cliciwch ar hwnnw.



Cam 5

Cliciwch ar 'Add a photo' a bydd yn dweud wrthyhch i 'Choose a photo to upload' a gallwch ddewis y rhai rydych am eu defnyddio o'r lluniau sydd wedi'u



cadw ar eich dyfais.

Cam 6

Gallwch ychwanegu disgrifiad at eich llun o'r ystafell/lleoliad e.e. lolfâ, gardd etc. Gallwch hefyd newid y drefn y rhestrir y lluniau. Byddwch hefyd yn gallu dewis un llun i fod yn brif lun ar gyfer yr hysbyseb - bydd y llun hwn yn cael ei ddangos gyntaf bob tro, a chaiff ei ddefnyddio hefyd mewn canlyniadau chwilio.

Sylwer: Peidiwch â lanlwytho lluniau sy'n cynnwys delweddau o blant a cheisiwch sicrhau hefyd nad ydynt yn cynnwys unrhyw beth arall a allai eich datgelu chi'n bersonol neu eich cartref e.e. rhif y tŷ/fflat, pobl (gan gynnwys lluniau ar waliau), dogfennau preifat yn y golwg neu rifau cofrestru ceir. Mae HomeSwapper yn cadw'r hawl i ddileu unrhyw luniau y mae'n eu hystyried yn amhriodol.

Cam 7

Unwaith rydych wedi lanlwytho'ch lluniau ac yn hapus â'r drefn y cânt eu dangos, gallwch gadw'ch hysbyseb yn barod i bobl ei weld! **Cofiwch rannu'ch hysbyseb ar dudalen Facebook HomeSwapper**

🔗 www.facebook.com/HomeSwapperOfficial/

Cam 8

Cofiwch fewngofnodi i'ch cyfrif yn aml i wirio'r cyfleoedd cyfnewid posib ac i sicrhau bod eich cyfrif yn aros yn fyw.



Mae rhagor o gyngor ac erthyglau manwl am HomeSwapper i'w cael yn 🔗 www.homeswapper.me/homeswapper-blog/ **neu cysylltwch â'ch Swyddfa Dai Ardal leol neu Opsiynau Tai.**



Dulliau talu rhent



Mae ffurflenni ar gael ar-lein neu gallwch ofyn i'ch Swyddog Rhent amdanynt drwy ffonio ☎ **601720 / 534094** neu e-bostio ✉ **rhenti@abertawe.gov.uk**



Bydd angen cerdyn talu electronig arnoch, gofynnwch i'ch Swyddog Rhent, neu ffoniwch ni ar ☎ **601720 / 534094**. Ni fydd taliadau a wneir ar ddydd Iau neu ddydd Gwener yn dangos tan yr wythnos ganlynol



Payzone - Gallwch ddefnyddio cerdyn electronig i dalu mewn unrhyw siop sy'n dangos logo payzone. Am restr o'r siopau hyn, ewch i 🌐 **www.payzone.co.uk**

**Drwy gysylltu
â'ch Swyddog
Rhent**

Gallwch dalu drwy ddefnyddio cerdyn debyd, Switch, Solo, Maestro neu gredyd drwy ffonio ☎ **601720 / 534094** neu eich Swyddfa Dai Ranbarthol leol yn ystod oriau swyddfa

Dros y rhyngwrdd



Ewch i wefan y Cyngor yn 🌐 **www.abertawe.gov.uk** a chliciwch ar **"Gwnewch e ar-lein"** a **"Talu"**. Os cewch unrhyw anawsterau, ffoniwch ☎ **601720 / 534094** am gymorth

Dros y ffôn



Os ydych yn gwybod eich cyfeirnod rhent, gallwch ffonio ein gwasanaeth awtomataidd **Cymraeg** ☎ **0300 456 2775 / Saesneg** ☎ **0300 456 2765** ar unrhyw adeg. (Os nad ydych yn gwybod eich cyfeirnod rhent, ffoniwch ☎ **601720 / 534094**)



Os ydych chi'n derbyn **Credyd Cynhwysol**, caiff eich **Costau Tai** eu talu i chi'n uniongyrchol gan yr **Yr Adran Gwaith a Phensiynau**. Ffoniwch yr **Yr Adran Gwaith a Phensiynau** ar ☎ **0345 600 0723** os nad ydych wedi derbyn eich costau tai

Gwasanaethau cefnogi

Hawliad Budd-dal Tai

I gyflwyno cais newydd am Fudd-dal Tai, ffoniwch y

Tim Hawlio ar ☎ **635353** neu e-bostiwch

✉ **caisnewyddamfudd-daliadau@abertawe.gov.uk**

Er mwyn trafod eich hawliad â Swyddog Budd-dal Tai, ffoniwch ☎ **635353** neu e-bostiwch

✉ **budd-daliadau@abertawe.gov.uk**

Tim Rhenti

Os ydych chi'n cael anhawster wrth dalu'ch rhent, cysylltwch

â'r **Tim Rhenti** drwy ffonio ☎ **01792 534064** neu

07920 560243 ✉ **rhenti@abertawe.gov.uk**

UCT - Uned Cefnogi Tenantiaid

Dinas a Sir Abertawe sy'n rheoli'r **UCT**, a all gynnig gweithiwr cefnogi i helpu gyda phroblemau ariannol neu unrhyw faterion cefnogi eraill gyda'ch tenantiaeth.

Ffoniwch eich Swyddog Rhent neu'r **Uned Cefnogi Tenantiaid** ar ☎ **774360** os teimlwch fod angen cefnogaeth arnoch

Opsiynau Tai

Cyngor ar arian a dyledion - hefyd, rhoddir cyngor am ddim os yw'ch tenantiaeth mewn perygl.

☎ **01792 533100** ✉ **opsiynautai@abertawe.gov.uk**



Cyngor ar Bopeth Abertawe

Ail Lawr, City Gates, 50a Wind Street, Abertawe SA1 1EE

☎ **0300 3309 082** 🌐 **www.adviceguide.org.uk/wales.htm**



Os ydych wedi'ch bygwth â digartrefedd, cynigir cyngor

a chymorth i chi am ddim ☎ **01792 469400**

Llinell Gymorth Cyngor ar Dai ☎ **08000 495 495**

🌐 **www.sheltercymru.org.uk/?lang=cy**



Cyngor ar ddyledion gan Stepchange ☎ **0800 138 1111**

🌐 **www.stepchange.org**



I gael cyngor ar sut i gael gwaith

☎ **01792 637112** 🌐 **www.workways.wales**

✉ **workways+@swansea.gov.uk**

Hawliadau atgyweirio



Does dim diwrnod yn mynd heibio pan nad oes sôn am rywun sydd wedi cael galwad ffôn niwsans neu alwr digroeso. Mewn rhifynnau Tŷ Agored blaenorol, rydym wedi darparu gwybodaeth i chi am sut i osgoi'r galwyr a'r masnachwyr digroeso hyn.

Dyma rai awgrymiadau i chi:

- Byddwch yn amheus o gynigion a bargeinion sy'n ymddangos yn rhy dda i fod yn wir. Does dim ffyrdd sicr o wneud arian yn gyflym.
- Peidiwch â chytuno i unrhyw gynigion neu fargeinion yn syth. Mynnwch gael amser i gael cyngor cyfreithiol annibynnol cyn gwneud penderfyniad.
- Peidiwch byth ag anfon arian at unrhyw un nad ydych yn ei adnabod, boed hynny yn y DU neu dramor, neu at unrhyw un nad ydych yn ymddiried ynddo.
- Peidiwch byth â rhannu'ch manylion banc neu eich manylion personol ag unrhyw un nad ydych yn ei adnabod neu nad ydych yn ymddiried ynddo. Mae'r wybodaeth hon yn werthfawr, felly sicrhewch eich bod yn ei diogelu.

Rydym hefyd wedi tynnu sylw o'r blaen at fater cwmnïau cyfreithiol yn cynnig gwneud atgyweiriadau a chael iawndal i denantiaid. Mae gan y cyngor wasanaeth cynhwysfawr sy'n sicrhau bod unrhyw waith atgyweirio angenrheidiol yn cael ei wneud mor gyflym â phosib. Felly, os ydych yn sylwi bod angen gwneud unrhyw waith atgyweirio yn eich cartref, dylech roi gwybod i'r cyngor yn uniongyrchol drwy ffonio

☎ **01792 635100** neu defnyddiwch ein ffurflen ar-lein:

📄 **www.abertawe.gov.uk/caisamwellacartref**.

Felly, os bydd rhywun yn cysylltu â chi ac mae gennych unrhyw amheuan, cysylltwch â'ch Swyddfa Dai Ardal am gymorth a chynghor cyn cytuno i unrhyw beth, ac yn bwysicaf oll, sicrhewch eich bod yn siŵr bod y bobl sy'n honni eu bod yn cynrychioli'r cwmnïau cyfreithiol hyn yn ddilys cyn eu gadael i mewn i'ch cartref.

Llinell Gymorth Credyd Pensiwn

0800 112 4763



Os ydych chi dros oedran pensiwn y wladwriaeth, efallai eich bod yn gymwys i dderbyn Credyd Pensiwn i helpu gyda'r gost o fyw pob dydd.

Gallech fod yn gymwys hyd yn oed os oes gennych bensiwn, cynilion neu os ydych yn berchen ar eich cartref eich hun. Hefyd, os ydych yn derbyn Credyd Pensiwn, efallai y cewch gymorth ychwanegol hefyd megis gyda'ch rhent, trwydded deledu, costau'r GIG (e.e. deintyddol, optegydd a theithio i'r ysbyty), treth y cyngor a biliau gwresogi.

Ar draws y DU, mae pobl yn colli allan ar £3 biliwn o fudd-daliadau nad ydynt yn cael eu hawlio bob blwyddyn, gyda 2 o bob 5 person yn colli'r cyfle i hawlio'r Credyd Pensiwn y mae ganddynt hawl iddo (gwerth £39 yr wythnos ar gyfartaledd). Mae 1 o bob 7 person yn colli'r cyfle i hawlio'r cymorth y mae ganddynt hawl iddo i dalu eu rhent.

I gael gwybod a ydych yn gymwys ac i gael rhagor o wybodaeth, ffoniwch y llinell gymorth am ddim ar: 0800 112 4763 (ddydd Llun i ddydd Iau, 10am tan 3pm).

CYFLWYNIR MEWN PARTNERIAETH Â:



Ymgynghoriad Polisi Atgyweiriadau



Mae Polisi Atgyweiriadau Tai'r Cyngor yn cael ei ddiweddarau ar hyn o bryd a derbyniodd pob tenant a lesddeiliad arolwg ymgynghori yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr a oedd yn rhoi cyfle i chi fynegi'ch barn ar y polisi drafft.

Mae'r polisi wedi'i ddiweddarau oherwydd bod adborth o Arolygon Tenantiaid a Lesddeiliaid blaenorol a gynhaliwyd gennym wedi dweud wrthym:

- Nad oedd rhai tenantiaid yn siŵr am yr hyn y maent yn gyfrifol am ei atgyweirio yn eu cartref a'r hyn yr oedd y cyngor i fod i'w atgyweirio.
- Mae tenantiaid wedi dweud wrthym eu bod am allu gwneud apwyntiadau ar ddiwrnodau penodol.
- Mae tenantiaid wedi dweud wrthym eu bod am i ni helpu pobl nad ydynt yn gallu gwneud atgyweiriadau eu hunain oherwydd eu bod yn oedrannus neu'n anabl ac nad oes ganddynt deulu na ffrindiau a all eu helpu.

Rydym hefyd wedi edrych ar enghreifftiau o wasanaethau a pholisïau atgyweirio a ddarperir gan gynghorau a chymdeithasau tai eraill i ddysgu o enghreifftiau o arfer gorau mewn mannau eraill. Ymgynghorwyd hefyd â Phanel Ymgynghorol y Tenantiaid i gael barn ar yr hyn y dyldid ei gynnwys yn y polisi wedi'i ddiweddarau.

Mae rhai newidiadau pwysig i'r polisi fel a ganlyn;

1. Ymrwymiad newydd i'r cyngor wneud atgyweiriadau i bob elfen o geginau ac ystafelloedd ymolchi newydd a osodwyd fel rhan o raglen fuddsoddi SATC. Bydd tenantiaid yn parhau i fod yn gyfrifol am unrhyw atgyweiriadau sydd eu hangen oherwydd difrod

bwriadol neu esgeulustod ganddyn nhw neu unrhyw un sy'n byw yn yr eiddo neu'n ymweld â'r eiddo. Os yw'r cyngor yn gwneud y gwaith atgyweirio, codir tâl ar y tenant yn unol â'r Weithdrefn Atgyweiriadau y gellir Ailgodi Tâl amdanynt.

2. Cyflwyno apwyntiadau ar gyfer yr holl atgyweiriadau.
3. Cyflwyno arolygon boddhad tenantiaid yn dilyn pob atgyweiriad a gwblhawyd – bydd y rhain yn cael eu hanfon yn awtomatig drwy neges destun neu e-bost, neu drwy'r post os nad oes gennym rif ffôn neu gyfeiriad e-bost ar gyfer y tenant.
4. Darparu gwybodaeth gliriach am gyfrifoldebau atgyweirio tenantiaid, lesddeiliaid a landlordiaid drwy wella'r wybodaeth yn y polisi a darparu Canllaw Hawdd ei Ddarllen i'r polisi.

Mae'r ymarfer ymgynghori bellach wedi dod i ben ac rydym yn ddiolchgar iawn i bawb a ymatebodd gan ei bod yn hynod bwysig i ni fod pob tenant yn cael cyfle i ddweud ei ddweud ar ein cynigion. Mae'r atebion yn cael eu hystyried yn fanwl ar hyn o bryd a byddant yn llywio'r polisi terfynol. Bydd y polisi wedi'i ddiweddarau yn cael ei roi ar waith yn ystod y gwanwyn a bydd rhagor o wybodaeth ar gael gan eich Swyddfa Dai Ardal neu ein Swyddog Cyfranogiad Tenantiaid. Bydd fersiwn derfynol y Polisi ar gael ar wefan y cyngor.

Hwb Ymwybyddiaeth Ynni Dros Dro

Mewn ymateb i'r argyfwng ynni presennol, mae Cyngor Abertawe wedi comisiynu Canolfan yr Amgylchedd Abertawe i sefydlu cyfleuster cymorth gyda chymorth gan wahanol bartneriaid. Bydd y cyfleuster yn y siop wag yn 13 Nelson Street yng nghanol y ddinas.

Mae'r hwb wedi hyfforddi staff o Ganolfan yr Amgylchedd a sefydliadau eraill, ac mae ar agor tan fis Ebrill. Mae'n cynnig cymorth eang a diduedd am ddim i bobl sy'n ei chael hi'n anodd talu biliau tanwydd. Mae'n cynnwys gwybodaeth i bawb am sut i insiweiddio cartrefi'n well, newid darparwyr ynni a chael mynediad at gymorth ar hawliau lles. Mae hefyd yn gwerthu nwyddau ecogyfeillgar gan gynnwys cyfleusterau ail-lenwi nwyddau cartref. Felly beth am alw heibio a chael sgwrs gyfrinachol â'r fîm?

Yr oriau agor yw:

Iau	12pm - 6pm
Gwe	10am - 4pm
Sad	9am - 3pm

Sgamiau ar-lein a sut i gadw'n ddiogel

Mae llawer o wahanol fathau o sgamiau ar-lein y dylech fod yn ofalus ohonynt. Mae'n amhosib rhestru'r holl fathau o sgamiau sydd ar gael, fodd bynnag mae rhai sy'n fwy cyffredin nag eraill - dyma rai awgrymiadau ar gyfer sut i gadw'ch hun yn ddiogel:



Canlyn ar-lein

Mae llawer o bobl yn defnyddio gwefannau ac apiau ar-lein i ddod o hyd i bartner. Mae yna lawer o bobl onest yn gwneud hyn, ond cofiwch nad yw pawb yn gwbl onest pan fyddant yn defnyddio'r gwefannau hyn.

- Peidiwch byth â rhoi eich manylion personol i unrhyw un wrth i chi sgwrsio ar-lein.
- **PEIDIWCH** byth ag anfon arian at rywun rydych newydd ei gyfarfod ar-lein.
- Nid yw'r hyn a welwch ar broffil rhywun yn adlewyrchu pwy ydyn nhw bob amser.



Twyll siopa ar-lein

Mae mwy ohonom yn siopa ar-lein nag erioed o'r blaen. O ganlyniad, mae cynnydd mawr mewn achosion o dwyll ar-lein.

- Os yn bosib, defnyddiwch fanwerthwyr/frandiau ar-lein rydych yn ymwybodol ohonynt ac yn ymddiried ynddynt. Gwiriwch y polisi danfoniadau, yswiriant, gwarantiad a dychwelyd eitemau.
- Byddwch yn arbennig o ofalus wrth brynu eitemau drud.
- Sicrhewch fod gennych feddalwedd gwrthfeirysau ddigonol a fydd yn galluogi'ch cyfrifiadur i dynnu'ch sylw at unrhyw wefannau amheus.

Twyll gwyliau

Ar yr adeg hon o'r flwyddyn, bydd llawer o bobl yn meddwl am drefnu gwyliau. Mae twyllwyr yn

targedu gwefannau trefnu gwyliau a llety i geisio twyllo cwsmeriaid diarwybod fel eu bod yn talu am lety nad yw ar gael neu nad yw'n bodoli. Yn aml ni fydd yr un sy'n cael ei dwyllo'n ymwybodol o hynny nes ei fod yn cyrraedd y llety neu'r cyrchfan ac yn darganfod nad oes unrhyw gofnod o'r archeb.

- Lle bo'n bosib, talwch am wyliau ac unrhyw deithiau gan ddefnyddio cerdyn credyd. Gall hyn roi diogelwch ariannol ychwanegol i chi.
- Ymchwiliwch i unrhyw eiddo cyn archebu ac edrychwch i weld a yw'n cael ei hysbysebu yn rhywle arall neu a oes ganddo ei wefan ei hun. Byddwch yn wliadwros os yw'r prisiau'n amrywio'n sylweddol.
- Sicrhewch fod eich archeb yn dod dan gynllun diogelu ariannol fel ABTA (Cymdeithas Asiantwyr Teithio Prydain) neu ATOL (Trwydded Trefnwyr Teithiau Awyr). Chwiliwch am rif aelodaeth a chysylltwch â'r cynllun i gadarnhau bod y cwmni rydych chi'n ei ddefnyddio'n aelod ohono.

Bancio

Mae'r defnydd o fancio ar-lein neu nifer y bobl sy'n defnyddio apiau bancio wedi cynyddu. Er mwyn aros yn ddiogel wrth fancio ar-lein, rhaid i chi ddiogelu'ch cyfrinair a'ch manylion personol i atal troseddwr rhag cael mynediad at eich cyfrif. Dylech



hefyd wneud y canlynol:

- Dewis cyfrinair cryf nad yw'n hawdd i unrhyw un arall ei ddyfalu. Peidiwch â rhannu'r cyfrinair hwn ag unrhyw un arall.
- Allgofnodwch o'ch cyfrif bancio ar-lein neu'ch ap bancio pan fyddwch wedi gorffen ei ddefnyddio.
- Peidiwch â defnyddio WiFi cyhoeddus ar gyfer bancio ar-lein oni bai eich bod yn hyderus bod y cysylltiad yn ddiogel.

Ffyrdd eraill o gadw'ch hun yn ddiogel ar-lein

- Sicrhewch fod unrhyw wefannau rydych yn eu defnyddio'n ddiogel. Mae gwefannau dibynadwy yn dechrau gyda HTTPS nid HTTP. Ystyr 's' yw 'secure'.
- Pan fydd y dudalen wedi llwytho, gwiriwch nad yw cyfeiriad y wefan rydych wedi'i nodi wedi

newid i sillafiad ychydig yn wahanol.

- Defnyddiwch gysylltiadau WiFi saff a diogel.
- Sicrhewch fod gennych feddalwedd gwrthfeirysau gyfredol.
- Sicrhewch fod gan bob un o'ch cyfrifon gyfrineiriau cryf. Peidiwch â defnyddio'r un cyfrinair ar gyfer nifer o gyfrifon a chofiwch newid eich cyfrinair yn rheolaidd.

Os oes gennych unrhyw amheuaeth a ydych yn cael eich twyllo, neu os hoffech adrodd am weithred dwyllodrus, gallwch wneud hynny ar-lein 📞 www.abertawe.gov.uk/rhybuddionamweithredoeddtwyllodrus.

Fel arall, gellir adrodd am weithredoedd twyllodrus i Action Fraud - 📞 0300 123 2040 📞 www.actionfraud.police.uk.

Rhowch wybod i ni sut yr hoffech dderbyn copi o Tŷ Agored

Yn nes ymlaen eleni byddwn yn symud tuag at gopi digidol o'n cylchgrawn i denantiaid a lesddeiliaid, Tŷ Agored. Yn ein harolwg boddhad diweddar, gofynnem a yw tenantiaid yn darllen y cylchgrawn a sut byddai'n well ganddynt ei dderbyn.

Dywedodd nifer o denantiaid y byddai'n well ganddynt barhau i dderbyn copi papur ac felly byddant yn parhau i'w dderbyn fel hyn. I'r tenantiaid hynny y mae'n well ganddynt ei dderbyn drwy e-bost, yna byddan nhw'n ei dderbyn yn eu fformat o ddewis cyhyd ag y bod gennym gyfeiriad e-bost cyfoes ar eu cyfer. Os yw tenantiaid wedi gofyn am fformatau amgen fel print bras, bydd y rhain yn cael eu hanfon atynt o hyd. Mae rhifynnau cyfredol a'r gorffennol o gylchgrawn Tŷ Agored hefyd ar gael bob amser ar ein gwefan i chi eu darllen.

Mae'n bwysig iawn eich bod yn dweud wrthym ar ba fformat yr hoffech dderbyn y cylchgrawn gan **NA** fyddwch yn parhau i dderbyn copi papur yn awtomatig yn y dyfodol. Gallwch wneud hyn drwy gofrestru am gopi digidol yma, Tŷ Agored - Abertawe neu drwy e-bostio ✉ tai@abertawe.gov.uk neu ffonio ☎ **01792 635045** os hoffech barhau i dderbyn copi papur.



Anwedd a llwydni yn eich cartref

Beth yw anwedd?

Mae lleithder yn yr aer drwy'r amser, hyd yn oed os nad ydych yn gallu'i weld. Fe'i cynhyrchir o fywyd arferol o ddydd i ddydd. Ceir lleithder pan fo aer llaith, cynnes yn cyrraedd arwynebau oer, sy'n peri i'r aer gyddwyso a ffurfio diferion o ddŵr. Gall dŵr sy'n cronni ar arwynebau arwain at dyfiant darnau o lwydni du.

Mae deffro i anwedd ar ffenestri yn olygfa

gyfarwydd i lawer o bobl, yn enwedig yn y gaeaf ac nid yw fel arfer yn broblem os yw'n clirio. Fodd bynnag, os bydd anwedd yn digwydd dros gyfnod hir ac nid yw'n clirio, bydd symptomau eraill yn ymddangos fel darnau llaith ar waliau, papur wal sy'n pilio ac yn y pen draw tyfiant o lwydni du. Yn ychwanegol, mae gan y rhan fwyaf o gartrefi ffenestri gwydr dwbl gyda seliau atal drafftiau ar ddrysau a ffenestri a all hefyd atal aer llaith rhag dianc.

Ydych chi'n gwybod faint o leithder y mae gweithgareddau bob dydd yn ei gynhyrchu

Cyfanswm y lleithder a gynhyrchir yn eich cartref mewn un diwrnod 28 Peint

Sychu dillad



9 peint

Coginio a berwi tegell



6 pheint

Un anifail canolig ei faint



4 peint

Dau berson sy'n actif am ddiwrnod



3 pheint

Cael bath neu gawod



2 beint

Golchi dillad



1 peint

Sut ydych chi'n gwybod os oes gennych anwedd?

Os oes anwedd yn eich cartref byddwch yn dechrau gweld arwyddion ohono'n gyflym iawn fel:

- Ffenestri ffrydiog (h.y. diferion o ddŵr arnynt).
- Waliau gwlyb.
- Mannau llaith ar waliau.

- Papur wal sy'n pilio.
- Arwydd o lwydni.
- Arogl llwyd-ddrewllyd ar ddillad mewn cypyrddau dillad.

Os gadewir anwedd i ddatblygu'n llwydni gall arwain at eiddo diolwg, drewllyd. Gall hefyd sbarduno problemau iechyd fel asthma a chwynion eraill neu eu gwneud yn waeth.



Lleihau anwedd

Mae'n bosibl lleihau'r anwedd yn eich cartref trwy gynhyrchu llai o ddŵr a thrwy adael i aer llaith ddianc o'ch cartref. Dyma rai awgrymiadau defnyddiol:

Wrth goginio

- Coginiwch gyda chaeadau ar eich padelli bob amser a throwch y gwres i lawr unwaith y bydd y dŵr wedi berwi.
- Defnyddiwch yr isafswm o ddŵr yn unig ar gyfer coginio llysiau.
- Agorwch ffenestri'r gegin ychydig a chau'r drysau neu defnyddiwch eich gwyntyll echdynnu os oes gennych chi un.
- Peidiwch â defnyddio'ch ffwrn nwy i wresogi'ch cegin.

Wrth ymolchi

- Wrth lenwi'r bath, rhedwch y dŵr oer yn gyntaf ac yna ychwanegwch y dŵr poeth - bydd yn lleihau'r ager sy'n arwain at anwedd hyd at 90%.

Golchi a sychu dillad

- Peidiwch â hongian eich dillad ar reiddiaduron.
- Sychwch ddillad yn yr awyr agored os yw'n bosib, neu eu rhoi yn yr ystafell ymolchi gyda'r drws ar gau a'r ffenestr ar agor neu rhwch wyntyll echdynnu ymlaen.

- Sicrhewch fod gan eich sychwr dillad dwll awyr i'r tu allan (gallwch brynu citiau DIY ar gyfer hyn) oni bai ei fod yn fath hunan-anweddu.

Cyffredinol

- Agorwch ffenestri yn y bore am 20 munud i adael awyr iach i mewn i'ch cartref.
- Sychwch yr holl arwynebau a ffenestri lle ceir anwedd bob bore - **eich cyfrifoldeb chi yw hyn**.
- Gadewch dyllau awyru araf ffenestri ar agor drwy'r flwyddyn.
- Os oes gennych Drimaster/Flatmaster wedi'i ffitio, gadewch ef ymlaen bob amser a chadwch y ffenestri a'r drysau ar gau.
- Gadewch fwch rhwng y dodrefn a'r waliau fel bo lle o'u cwmipas.
- Cadwch gaeadau ar danciau pysgod.
- Ceisiwch adael y gwres ymlaen yn isel am sawl awr y dydd pan fydd hi'n oer.
- Peidiwch â defnyddio gwresogyddion nwy mewn poteli (Calor etc.).
- Sicrhewch fod eich cartref wedi'i inswleiddio - mae'r cyngor yn cynnig inswleiddio'r llofft am ddim i'w denantiaid.

Trin llwydni

Os ydych yn sylwi ar llwydni'n tyfu yn eich cartref, dylech ei drin ar unwaith er mwyn ei atal rhag lledaenu ac achosi mwy o ddifrod i'ch cartref.

- PEIDIWCH â defnyddio cannydd i drin llwydni.
- Ewch ati i sterileiddio'r man yr effeithir arno gyda golchiad ffyngladdol (ar gael o'r rhan fwyaf o siopau DIY). Sicrhewch eich bod yn dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.
- Gwiriwch y man yr effeithir arno am wythnos ac os oes angen, dylech drin y man eto.
- Bydd defnyddio paent gwrth-llwydni yn helpu i atal y llwydni rhag dychwelyd.

Os ydych chi'n parhau i gael problemau gydag anwedd a llwydni yn eich cartref, cysylltwch â'r Ganolfan Alwadau Atgyweiriadau Tai ar ☎ 01792 635100

📄 www.abertawe.gov.uk/caisamwellacartref

📄 www.abertawe.gov.uk/article/23928/Awgrymiadau-a-chyngor-ar-gyfer-atgyweiriadau

Ydych chi'n cael anhawster wrth cael mynediad i'ch cartref neu i'r cyfleusterau sydd ynddo? Os ydych, ydych chi wedi ystyried cyflwyno cais am Grant Cyfleusterau i'r Anabl?

Mae Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ar gael i helpu a chynorthwyo'r henoed a phobl anabl i ddefnyddio'u cartrefi, darparu cyfleusterau yn y cartref a chynorthwyo wrth gynnal a chadw ffordd annibynnol o fyw.

Bydd arian grant yn helpu i roi addasiadau mawr eu hangen i chi, fel:

- Addasiadau i ystafelloedd ymolchi
- Addasu ystafelloedd
- Newid drysau
- Lifftau grisiau
- Rampiau
- Estyniad

(Estyniad ar yr amod nad yw addasiadau mewnol yn bosib)

Rydych yn gymwys i gyflwyno cais os ydych chi'n:

Denant y cyngor / Perchennog tŷ / Tenant preifat.

Does dim angen eich bod wedi'ch cofrestru'n anabl i gyflwyno cais - Bydd Therapydd Galwedigaethol yn helpu i asesu'ch anghenion.

Mae'r grantiau hyn yn orfodol a bydd rhai ceisiadau'n destun prawf modd i weld a oes angen cyfraniad.

I gael mwy o wybodaeth neu i gyflwyno cais, ffoniwch:

Is-adran Adnewyddu ac Addasu, yr Adran Tai

☎ 01792 635330 ✉ adnewyddutrefol@abetawe.gov.uk

🌐 www.abertawe.gov.uk/addasiadaucartref



Cyngor **Abertawe**
Swansea Council

Porth Tai ar-lein newydd - Yn dod cyn bo hir!

Yn y dyfodol agos byddwn yn lansio gwelliannau i'r ffordd y gallwch ddefnyddio gwasanaethau tai ar-lein.

Rydym wrthi'n datblygu porth newydd i denantiaid o'r enw 'Fy Nhai'. Mae hwn yn borth i wefan ddiogel i denantiaid a fydd yn hygyrch o'ch ffôn clyfar, eich tabled neu'ch cyfrifiadur personol. Bydd yn caniatáu i chi greu cyfrif tai personol y gallwch ei ddefnyddio ar adeg sy'n gyfleus i chi. Bydd yn rhoi mynediad hawdd at eich balans rhent a'ch trafodion, yn eich galluogi i dalu'ch rhent, cadw golwg ar unrhyw atgyweiriadau y gallech fod wedi adrodd amdanynt, newid eich manylion personol ac anfon negeseuon atom neu roi gwybod am faterion rheoli tai.

Byddwn mewn cysylltiad i roi gwybod i chi pan fyddwn yn lansio'r porth a sut y gallwch gael help i gofrestru ar gyfer eich cyfrif. Bydd y porth hwn yn ein helpu i wella sut y gallwch gael mynediad at wasanaethau tai ar-lein. Ni fydd yn disodli ein gwasanaethau wyneb yn wyneb, felly gallwch barhau i gysylltu â ni yn yr un modd drwy ein Swyddfeydd Tai Ardal.

Casgliadau Ailgylchu a Sachau Du Ymyl y Ffordd

Wythnos Werdd



Papur a chardfwrdd gyda'i gilydd

Sachau ar wahân



Metel, gwydr a ffoil gyda'i gilydd



Gwastraff gardd

Wythnos Binc



Poteli, potiau, tybiau a hambyrddau plastig



Gwastraff na ellir ei ailgylchu'n unig

Bob Wythnos



Gwastraff bwyd

Canolfan Ailgylchu



Derbynnir ym mhob canolfan ailgylchu



I ddod o hyd i'ch diwrnod casglu ac i lawrlwytho calendr casglu ewch i **www.abertawe.gov.uk/chwilioailgylchu** neu gofynnwch mewn llyfrgell neu swyddfa dai lleol.



Rhowch y sachau a'r biniau allan **ar ôl** 7pm y noson cyn y diwrnod casglu a **chyn** 7am ar fore'r casgliad.



Gallwch gael mwy o sachau ailgylchu a biniau bwyd o lyfrgelloedd a swyddfeydd tai. Am restr lawn o leoliadau, ewch i **www.abertawe.gov.uk/mwyosachau**.



Nid fan hyn! Mae sachau du ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu'n unig. Ailgylchwch yn y bagiau a'r biniau eraill a ddarperir er mwyn eu cadw allan o safleoedd tirlenwi.



Os oes **sticer ar eich sach** ac nid yw wedi'i chasglu, rydych wedi gwneud camgymeriad. Symudwch y sach o ymyl y ffordd a'i storio/didoli ar gyfer y casgliad nesaf neu gallech dderbyn hysbysiad o dâl cosb.



Gall llawer o eitemau eraill gael eu hailgylchu mewn Canolfannau Ailgylchu. Am restr lawn o leoliadau ac eitemau a dderbynnir, ewch i **www.abertawe.gov.uk/canolfannauailgylchu**.




Mae'r cyngor yn cynnig gwasanaeth casglu y telir amdano ar gyfer '**gwastraff swmpus**' fel dodrefn.

TREFNU'CH YMWELIAD

â Chanolfan Ailgylchu Llansamlet



Os ydych chi am ymweld â Chanolfan Ailgylchu Llansamlet bydd angen i chi drefnu hyn ymlaen llaw yn awr cyn teithio yno.



Mae'r mesur newydd hwn yn cael ei gyflwyno i reoli lefelau traffig ar ein safle prysuraf ac i sicrhau y gall staff a phreswylwyr gadw pellter cymdeithasol.



Gallwch gadw lle ar-lein, a bydd angen dangos copi o'r e-bost cadarnhau a phrawf eich bod yn breswilydd yn Abertawe i gael mynediad ar ddiwrnod eich ymweliad.



Bydd canolfannau ailgylchu eraill yn parhau i weithredu fel arfer, am y tro. Cadwch lygad ar ein gwe-dudalennau i gael y newyddion diweddaraf.



I gael rhagor o wybodaeth am y mesurau newydd ac i drefnu'ch ymweliad, ewch i:

www.abertawe.gov.uk/CAGCllansamlet



evh@abertawe.gov.uk



01792 635600

Abertawe yn ailgylchu
Swansea recycles



Allwn ni eich helpu?

Ydych chi'n cael trafferth darllen print mân neu efallai eich bod yn teimlo eich bod yn cael eich llethu gan yr holl wybodaeth rydych yn ei gweld ar lythyrau, taflenni a ffurflenni cais?

Os felly, gallwn ddarparu gwybodaeth i chi mewn ffyrdd eraill. Gallwn anfon gwybodaeth atoch mewn print bras, Braille neu ar gryno ddisg neu dâp. Os ydych yn siaradwr Cymraeg neu'n dysgu Cymraeg, gallwn hefyd ddarparu gwybodaeth i chi yn Gymraeg.

I dderbyn gwybodaeth mewn fformat arall, rhowch wybod i'r staff yn eich Swyddfa Ranbarthol neu cysylltwch â'r Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid drwy ffonio ☎ **01792 635045** neu e-bostio ✉ tai@abertawe.gov.uk.

Os oes angen help arnoch i lenwi ffurflen rydym wedi'i rhoi i chi, gofynnwch i'r staff yn eich Swyddfa Ranbarthol am gymorth.

Mae'n bwysig i ni eich bod yn gallu cael mynediad at yr holl wasanaethau sydd ar gael i chi gan y Gwasanaeth Tai; felly os hoffech i ni wneud pethau'n wahanol i chi, gofynnwch a byddwn yn hapus i wneud hynny.